# Newidiadau arfaethedig i Ardal Gwarchodaeth Arbennig Liverpool Bay / Bae Lerpwl:

# Ymgynghoriad

**9fed Tachwedd 2016 i 8fed Chwefror 2017**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru
Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## Cyflwyniad

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Un o'n swyddogaethau ni yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynglŷn â nodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae ACA ac AGA, a adwaenir hefyd fel 'safleoedd Natura 2000' neu 'safleoedd Ewropeaidd', yn fesurau sy'n ofynnol o dan gyfraith yr UE ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth. Caiff AGA eu dynodi er mwyn gwarchod poblogaethau o rywogaethau o adar sydd mewn perygl, neu rai sy'n mudo, a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt, tra bod ACA yn cael eu dynodi i warchod amrywiaeth o fathau o gynefinoedd a phlanhigion, a rhywogaethau o anifeiliaid ar wahân i adar.

Mae penderfyniadau ynglŷn â dynodi ACA ac AGA yng Nghymru ac yn nyfroedd glannau Cymru, o fewn terfyn môr tiriogaethol o 12 morfilltir, yn cael eu gwneud gan weinidogion Cymru. Mae penderfyniadau ynglŷn â dynodi ACA ac AGA yn nyfroedd glannau Lloegr, a dyfroedd tu hwnt i'r terfyn 12 morfilltir, yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU.

Cafodd AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl, sy'n gorwedd yn nyfroedd Lloegr a Chymru, ei dynodi yn 2010 i gydnabod ei phoblogaethau rhyngwladol bwysig o fôr-hwyaid duon *Melanitta nigra* a throchwyr gyddfgoch *Gavia stellata* nad ydynt yn bridio a chasgliad adar dŵr nad yw'n bridio.

Ym mis Ebrill 2016, cyflwynwyd cynigion gan Natural England (NE), CNC a Chyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU (JNCC) i Lywodraethau'r DU a Chymru i:

- ymestyn AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl i gynnwys ardaloedd morol ychwanegol;

- ychwanegu rhywogaethau pellach at y rhestr o rywogaethau o adar unigol y dynodwyd yr AGA ar eu cyfer, sef:
    - poblogaeth o fôr-wenoliaid bychain *Sternula albifrons* sy'n bridio
    - poblogaeth o fôr-wenoliaid cyffredin *Sterna hirundo* sy'n bridio
    - poblogaeth o wylanod bychain *Hydrocoloeus minutus* nad yw'n bridio;

- cydnabod rhywogaethau ychwanegol fel cydrannau a enwir o fewn y casgliad adar dŵr nad yw'n bridio, sef y wylan fechan *Hydrocoloeus minutus*, yr hwyaden frongoch *Mergus serrator* a'r fulfran *Phalacrocorax carbo*.

Mae lleoliad yr AGA a'r estyniadau arfaethedig yn cael eu dangos mewn cyfres o fapiau ar wefan Natural England. Mae'r estyniadau arfaethedig i ffin yr AGA yn cynnwys ardal rynglanw fach yng Nghymru, ac estyniad mwy yn bennaf yn nyfroedd Lloegr ond sydd hefyd yn ymestyn i mewn i ddyfroedd y môr yn y DU y tu hwnt i'r terfyn 12 morfilltir.

Mae gweinidogion Cymru a'r DU wedi gofyn i CNC, NE a JNCC i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion uchod. Rhoddir gwybodaeth am sut i ymateb i'r ymgynghoriad isod.

## Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae ymgynghori am y cynigion i ddynodi AGA yn nyfroedd y glannau yn ofyniad statudol o dan Reoliad 12B Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae ymgynghoriad am AGA arfaethedig yn ofynnol o dan Reoliadau 8 ac 13 Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.

Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd CNC, NE a JNCC yn adrodd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y sylwadau a dderbyniwyd gennym.

Mae dwy ran i'r ymgynghoriad:

**1. Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl (NE, CNC a JNCC)**

Rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar **sail wyddonol** y newidiadau arfaethedig i'r AGA. Mae diddordeb penodol gennym mewn sylwadau ar y ffordd mae data ar y rhywogaethau perthnasol o adar wedi cael eu defnyddio i ddatblygu'r newidiadau arfaethedig i ffiniau'r AGA, ac i werthuso'r safle yn unol â'r canllawiau perthnasol ar gyfer nodi AGA.

**2. Ymgynghoriad ar asesiad drafft o effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl y cynigion yng Nghymru (CNC yn unig[1])**

Mae CNC wedi drafftio asesiad o effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl y newidiadau arfaethedig i AGA Liverpool Bay / Bae Lerpwl, i'r graddau y maent yn ymwneud â dyfroedd glannau Cymru. Rydym yn ymgynghori ar y drafft hwn i gynorthwyo gyda nodi unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol a fyddai'n helpu i wella'r asesiad.

**Pan fyddwn yn paratoi ein hadroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bydd CNC, NE a JNCC yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd. Fodd bynnag, noder y gallai penderfyniadau wedi hynny gan weinidogion Cymru a'r DU ynglŷn â dynodi'r newidiadau i'r AGA ystyried dim ond gwybodaeth wyddonol berthnasol, ac mae'n rhaid iddynt fod yn seiliedig ar y canllawiau a'r meini prawf perthnasol. Adroddir am ystyriaethau economaidd neu gymdeithasol, a gallant lywio penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd mae AGA yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio, ond ni all gweinidogion eu**

[1]Mae NE a JNCC wedi cyflawni proses ar wahân ar gyfer asesu effaith gymdeithasol ac economaidd bosibl y cynigion i'r graddau y maent yn ymwneud â dyfroedd glannau Lloegr a dyfroedd alltraeth y DU. Am fwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch at adran berthnasol (ar dudalen 4) dogfen grynhoi ymgynghoriad Natural England, sydd ar gael ar wefan Natural England

**hystyried pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â dynodi AGA, neu wrth bennu eu ffiniau.**

## Pwy all ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus sy'n agored i ymateb gan unrhyw unigolion neu sefydliad.

Ar ddechrau'r ymgynghoriad, gwnaeth CNC a NE ysgrifennu trwy lythyr neu e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid y mae gennym eu manylion cyswllt. Gwnaethom hefyd gyhoeddi dechrau'r ymgynghoriad trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## Sut y gallaf gael mynediad at y dogfennau?

Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Mae'r canlynol yn crynhoi'r gwahanol ddogfennau, a sut i gael mynediad atynt.

Mae'r holl ddogfennau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu Natural England.

Mae fersiynau argraffedig unrhyw rai o'r dogfennau ar gael ar gais gan CNC trwy anfon e-bost at morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio Canolfan Gofal Cwsmeriaid CNC ar 0300 065 3000.

## Dogfennau rydym yn ymgynghori amdanynt

***'Briff Adrannol' ar gyfer Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig***
Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sail wyddonol y newidiadau arfaethedig i'r AGA, ac mae'n dod gyda mapiau manwl sy'n dangos ffin y safle sy'n bodoli eisoes a'r newidiadau arfaethedig. Mae'r Briff Adrannol (Departmental Brief) a'r mapiau ar gael ar wefan Natural England.

***Asesiad Effaith Drafft ar gyfer yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig (AGAa) (Cymru yn unig)***
Mae'r Asesiad Effaith Drafft yn asesu'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion AGAa, ynglŷn â'u rhyngweithio â gweithgareddau dynol i mewn ac o gwmpas y safleoedd.

## Deunydd ategol, sy'n cael ei ddarparu er gwybodaeth

Mae'n bosibl y bydd y dogfennau canlynol yn eich helpu i wneud unrhyw ymateb yr hoffech ei wneud, ond maent yn cael eu darparu er gwybodaeth yn unig. **Nid** ydym yn ymgynghori amdanynt.

***Amcanion cadwraeth drafft a chyngor ynglŷn â gweithgareddau ar y safleoedd ac o'u cwmpas***
Amcanion cadwraeth drafft JNCC, NE a CNC. Mae’r amcanion cadwraeth ar gael ar wefan Natural England.

***Adroddiadau gwyddonol yn ymwneud â'r AGA arfaethedig***
Mae’r 'Briff Adrannol' ar gyfer yr AGA arfaethedig (gweler uchod) yn cynnwys cyfeiriadau at nifer o adroddiadau gwyddonol a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r newidiadau arfaethedig i ffiniau’r AGA ac i’r rhestr o rywogaethau y mae'r AGA wedi'i dynodi ar eu cyfer. Mae cysylltiadau o fewn y Briff Adrannol i adroddiadau allweddol sydd ar gael ar wefan y JNCC.

***Arall***
Copi o'r llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru yn gofyn i CNC gynnal yr ymgynghoriad hwn. Ystyrir bod hwn yn cynnwys yr hysbysiad statudol oddi wrth weinidogion Cymru at CNC, fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 12B Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u hamnewidiwyd).

## Sut ydw i’n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad hwn â staff CNC **cyn** i chi gyflwyno ymateb i’r ymgynghoriad, gallwch wneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae croeso i chi gysylltu â ni trwy e-bostio eich enw a'ch rhif ffôn, ynghyd â disgrifiad byr o'r hyn yr hoffech ei drafod, at morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.  Bydd aelod perthnasol o staff yna'n cysylltu â chi. Neu gallwch ein ffonio ni ar 0300 065 3000. Fodd bynnag, os yw eich ymholiad yn benodol mewn perthynas â rhannau Lloegr neu rannau alltraeth y safle, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â Natural England trwy e-bostio Liverpool.BaySPA@naturalengland.org.uk neu drwy ffonio 0300 060 3900.

Rhaid i ni dderbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn erbyn **17:00 ar 8fed Chwefror 2017 fan bellaf.**  Ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw.

Gellir cyflwyno ymatebion yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Ymateb i’r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i’r AGA

Ar wahân i sylwadau ar asesiad effaith drafft CNC (gweler isod), dylai pob ymateb i'r ymgynghoriad gael ei anfon at **Natural England**. Mae'n **rhaid** i ymatebion gael eu cyflwyno gan ddefnyddio ffurflen ymateb ar-lein Natural England neu fel arall gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig.

Y ffordd orau i ymateb yw trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

Fodd bynnag, os nad ydych yn gallu ymateb ar-lein, mae hefyd yn bosibl ymateb drwy anfon e-bost at: Liverpool.BaySPA@naturalengland.org.uk, neu drwy ysgrifennu at Natural England yn: FAO Liverpool Bay pSPA, Natural England, Hornbeam House, Electra Way, Crewe, CW1 6GJ.

Os hoffech ymateb drwy lythyr, byddai o gymorth pe baech yn defnyddio'r ffurflen ymateb safonol. Cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 os hoffech i ni anfon fersiwn papur o'r ffurflen ymateb atoch. **Fodd bynnag, bydd llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn helpu i ymdrin yn effeithlon ag ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad.**

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar asesiad effaith drafft CNC

Dylid anfon unrhyw sylwadau ar yr asesiad effaith drafft o'r cynigion mewn perthynas â rhannau'r safle sydd yng Nghymru at CNC **nid** at Natural England. Dylid e-bostio sylwadau at morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu eu hanfon at: Y Tîm Safleoedd Gwarchodedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor, LL57 2DW.

## Sut bydd CNC/NE/JNCC yn defnyddio fy ymateb?

Bydd CNC, NE, a JNCC, lle bo'n berthnasol, yn defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn paratoi adroddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi maes o law ar wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru a Natural England.

Sylwer, er budd bod yn dryloyw ac agored, bydd yr **holl** ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys enwau ymatebwyr, ond heb gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol arall, ar gael i'r cyhoedd a gellir eu cyhoeddi, gan gynnwys ar wefannau CNC a/neu NE.

Gallwn hefyd rannu unrhyw ymatebion unigol yr ydym yn eu derbyn rhwng CNC, NE a JNCC, a chyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hyn er mwyn sicrhau ymagwedd gyd-drefnedig tuag at yr ymgynghoriad hwn.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi i ni yn cael ei defnyddio a'i storio yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig, fel y disgrifir uchod. Sicrhewch nad ydych yn crybwyll enwau unigolion eraill, nac yn cynnwys gwybodaeth bersonol yng nghorff eich ymateb.

**Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch barn ynghylch yr ymgynghoriad hwn fod ar gael i'r cyhoedd, fe'ch cynghorir i beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**